

SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y swydd:	**Rheolwr Prosiectau**
Adrodd i:	**Ysgrifennydd yr Esgobaeth (Prif Weithredwr)**
Lleoliad:	**Swyddfa'r Esgobaeth, Llanelwy, ac elfen o weithio hyblyg**
Oriau:	**35 awr yr wythnos, yn cynnwys gweithio ambell noson ac ar y penwythnos**
Cyflog:	**£40,000**

Diben y swydd

Trwy'r cymorth galluogi a ddarperir gan yr Eglwys yng Nghymru trwy Gronfa Twf yr Eglwys, mae pedwar prosiect twf ar waith gan Esgobaeth Llanelwy, yn rhan o'n gweledigaeth i ehangu ein gweinidogaeth mewn cymunedau lleol.

I'n helpu i gyflawni ein nodau, mae methodoleg rheoli prosiectau yn hanfodol er mwyn cynllunio, cyflawni a monitro ein holl brosiectau twf. Mae arnom angen rheolwr prosiect trefnus ac uchelgeisiol i helpu'r timau lleol i gyflwyno'r prosiectau hyn yn llwyddiannus, a'n galluogi ni i fonitro, gwerthuso a rhoi adroddiadau rheolaidd a manwl gywir ar y cynnydd a gyflawnir.

Mae twf yn flaenoriaeth i'n hesgobaeth, a bydd y Rheolwr Prosiectau yn gweithio gyda thîm Swyddfa'r Esgobaeth, ein Harchddiaconiaid a'n Hardaloedd Cenhadaeth.

Mae'r dyletswyddau allweddol fel a ganlyn:

- Gweithio gyda thîm Rhaglen yr Esgobaeth i fonitro gofynion y prosiectau, eu hamserlenni cyflwyno a'u costau.

- Datblygu cynlluniau prosiect manwl i lywio timau'r prosiectau a'u hadolygu wrth i anghenion a gofynion newid.

- Monitro perfformiad y prosiectau er mwyn sicrhau y cânt eu cyflwyno'n amserol a'u bod yn glynu wrth y gyllideb a'r deilliannau ansawdd arfaethedig.

- Cynnal sesiynau rheolaidd i drafod y gwersi a ddysgwyd ac amlygu diwylliant o welliant parhaus.

- Llunio a chyflwyno adroddiadau ar statws y prosiectau i'r rheolwyr, i'r grŵp Goruchwylio Esgobaethol ac i'r rhanddeiliaid allweddol eraill.

- Gweithio'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i gefnogi gweithrediad effeithlon y prosiectau. Bydd hyn yn cynnwys addasu eich arddull gweithio yn unol â chyd-destun yr Esgobaeth a'r Eglwys yng Nghymru.

- Datblygu sgiliau arwain a chyfathrebu rhagorol er mwyn cysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid y prosiect ar bob lefel.

Rydym yn chwilio am y canlynol ...

Rydym yn chwilio am reolwr prosiect profiadol, a all ddefnyddio'i wybodaeth arbenigol ac addasu'i ddull gweithredu ar gyfer cyd-destun yr Eglwys yng Nghymru a'r gofynion o ran darparu adroddiadau.

Dylech fod yn weithiwr sy'n bwrw iddi yn ddigymell – un sy'n gallu cyfuno sgiliau creadigol a sgiliau rheoli amser i drefnu timau eglwysi lleol a'u hannog i groesawu cynlluniau newydd, datblygu prosiectau newydd, arloesol a'u cwblhau. Bydd y gallu i gyfathrebu'n dda, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn allweddol i lwyddiant.

Dylai fod gennych brofiad o roi adroddiadau ar gynnydd prosiectau i gynulleidfaoedd amrywiol. Mae atebolrwydd a rhoi adroddiadau yn rhan allweddol o'r rôl hon; i gefnogi hynny, cewch fynediad uniongyrchol i gyfarfod â'r esgob, fel noddwr y prosiect. Disgwylir i chi gyfarfod yn rheolaidd – yn unigol a chyda rheolwyr prosiectau eraill ar draws y rhanbarth – â swyddog enwebedig y cyllidwr, sef Corff y Cynrychiolwyr.

Bydd gennych brofiad o weithio gyda chydweithwyr cyllid er mwyn sicrhau bod cofnodion cywir a manwl o incwm a gwariant y prosiectau yn cael eu cadw a'u crynhoi yn rhan o'r adroddiadau rheolaidd arnynt.

Manyleb y person

H = Hanfodol D = Dymunol

T = Tystiolaeth Ff = Ffurflen Gais C = Cyfweliad a'r tasgau dethol G = Geirda

Meini prawf	H	D	T
Cristion sy'n ymarfer gyda ffydd fywiog		*	Ff, G
Gallu i fynegi empathi cryf â rôl yr Eglwys yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain	*		Ff, C
Cymwysterau			
Gradd Prifysgol neu gymhwyster cyfwerth	*		Ff
Cymhwyster cydnabyddedig ym maes Rheoli Prosiectau, e.e. Prince 2/MSP	*		Ff, C
Profiad			
Hanes o lwyddo i reoli prosiectau yn llwyddiannus	*		Ff, C, G
Profiad o arwain pobl a gweithredu mewn strwythur rheoli matrics	*		Ff, C, G
Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus	*		Ff
Arweinyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth strategol			
Gallu i droi strategaeth a gweledigaeth yn gynlluniau a phrosiectau gweithredol, a gwerthuso perfformiad, deilliannau ac effaith	*		Ff, C
Gallu i ymdopi â deinameg drefniadaethol gymhleth ac ysbrydoli newid	*		Ff, C
Gallu i adnabod cyfleoedd i sicrhau twf a chynaliadwyedd i'r dyfodol	*		Ff, C
Gallu i ddefnyddio offer dadansoddi data ac ystadegau a meddwl yn feirniadol er mwyn llywio gwaith cynllunio, cymorth a her	*		Ff, C, G
Llythrennedd ariannol â'r gallu i dderbyn cyfrifoldeb am gyllidebau ac adnoddau	*		Ff, C, G
Deall llywodraethiant yng nghyswllt Ardaloedd Cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru		*	Ff, C, G
Deall strwythurau'r esgobaeth a'r Ardaloedd Cenhadaeth lleol		*	Ff, C
Sgiliau a rhinweddau personol			
Parodrwydd i gymryd y cam cyntaf mewn perthynas â chyfleoedd newydd gyda'r gallu i ymateb yn greadigol ac yn llwyddiannus	*		Ff, C, G
Gallu i symbylu timau Ardaloedd Cenhadaeth, gan gydnabod eu cryfderau a grymuso pobl i ymateb yn gadarnhaol i newidiadau	*		Ff, I, G
Dangos sgiliau cyfathrebu ardderchog	*		Ff, C, G
Gallu siarad ac ysgrifennu'n gywir ac yn rhugl yn Saesneg (ac yn Gymraeg yn ddelfrydol)	*		Ff, C, G
Gallu i gyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn ffyrdd perthnasol i ystod o gynulleidfaoedd, â'r hyder a'r arbenigedd i arwain hyfforddiant	*		Ff, C, G
Gallu i feithrin perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol	*		Ff, C, G
Cymhwysedd mewn ystod o raglenni TG a gallu i arddel technoleg newydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd	*		Ff, C, G
Ffactorau ychwanegol			
Deiliad trwydded yrru gyfredol gyda mynediad at gludiant	*		Ff
Gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	*		Ff